## Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)

## 10 Rhagfyr 2019

**Yn bresennol**

**John Hamer, Eluned Jones a Rebecca Rees** (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd a Rachel Mulholland** (CEFAS), **Mark Russell** (Cymdeithas y Cynhyrchwyr Mwynau), **Kirsty Lindenbaum, Lucie Skates, Harriet Robinson, Karen Perrow a Helen Bloomfield** (CNC), **Pete Barham** (Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr), **David Jones** (Ynni Môr Cymru), **Clare Reed** (Cyswllt Amgylchedd Cymru), **Michael Igoe** (Y Siambr Morgludiant), **Mike Butterfield a Phil Horton** (Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol), **Abby Haines** (Y Sefydliad Rheoli Morol), **Jillian Whyte** (Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur), **Rosie Kelly a Michelle Moore** (Ystad y Goron).

1. Cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru (y Cynllun Morol) ei gyhoeddi a'i fabwysiadu gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 12 Tachwedd 2019. Rydym yn canolbwyntio bellach ar helpu'r Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol (ACPau) ac eraill i roi'r Cynllun ar waith. Mae Canllawiau Gweithredu wrthi'n cael eu paratoi ac fe'u cyhoeddir maes o law. Roedd y grŵp o blaid cyhoeddi heb ymgynghori pe bai hynny'n briodol.

2. Ar ôl i'r Cynllun Morol gael ei fabwysiadu, cynhaliwyd gweminar gyda'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol i drafod gweithredu'r cynllun. Dywedwyd bod y gwaith cysylltu a thrafod gydag ACPau yn mynd yn dda a bod bwriad i gynnal amryw o gyfarfodydd drwy gydol mis Rhagfyr a dechrau 2020.

3. Gofynnwyd sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau y byddai’r cynllun yn cael ei roi ar waith a sut y byddai'n asesu hynny. Bydd yr agwedd fwy ffurfiol ar ddeall a yw'r cynllun yn cael ei weithredu mewn ffordd effeithiol ai peidio yn cael ei hasesu drwy'r cylch monitro ac adrodd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd mwy o gynnydd yn cael ei wneud ar weithredu'r cynllun wrth i amser fynd heibio. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd hi bod rheoleiddiwr yn mynd ati'n fuan i roi gwybod yn glir i ymgeiswyr beth fyddai’r disgwyliadau. Bydd Fframwaith Monitro ac Adrodd ar y Cynllun Morol yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd ac mae'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol wedi sefydlu is-grŵp sy'n cyfrannu at y gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract i ddatblygu dangosyddion ar sail y fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru wrthi hefyd yn edrych ar ddata llinell sylfaen ac yn gweithio ar gontract sy'n ymwneud â gwerth moroedd Cymru.

4. Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith ar helpu i weithredu'r cynllun ar sail ofodol ac mae wedi sefydlu paneli arbenigwyr o sectorau gwahanol i gyflwyno syniadau am sut i nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol. Yn y lle cyntaf, bydd y paneli hyn yn canolbwyntio ar agregau, dyframaethu, ynni'r ffrwd llanw ac ynni'r tonnau ac yn ystyried rhagoriaethau'r achos dros fwrw ymlaen â'r gwaith o nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol.

5. Bydd y gwaith gyda'r paneli arbenigwyr yn dod i ben yn gynnar yn 2020 a rôl y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol fydd goruchwylio'r gwaith a sicrhau ei fod yn briodol cyn i gyngor gael ei roi i'r Gweinidog ei ystyried. Rhoddwyd gwahoddiad

agored i'r aelodau ymuno â'r paneli arbenigwyr. Os penderfynir mynd ati i ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol, byddai Hysbysiad Cynllunio Morol yn cael ei gyhoeddi, fel y nodir yn y Cynllun Morol.

6. Ochr yn ochr ag ystyried Ardaloedd Adnoddau Strategol, mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddiweddaru'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol, o ran deall y cyfleoedd ar gyfer sectorau penodol, a'r cyfyngiadau a allai fod arnynt. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy brosiect dan Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), sy'n cael ei arwain gan ABPMer ochr yn ochr â gwaith sy'n cael ei wneud gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS). Cafodd canlyniadau arolwg aml-belydrau a oedd yn rhan o astudiaeth ABPMer eu cyflwyno i'r grŵp. Bydd CNC yn cynnal gweithdai yn gynnar yn 2020 er mwyn cyfrannu at y gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud ar ddadansoddi cyfyngiadau ac ar fapio.

7. Rhoddodd Ystad y Goron gyflwyniad ar Gylch 4 o'i phroses lesio mewn perthynas ag ynni gwynt ar y môr. Roedd Ystad y Goron yn ymgymryd â gweithgareddau lesio ar wely’r môr ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon hyd at 12 milltir forol o'r lan, a byddai'r cam nesaf (y gwahoddiad i dendro) yn dechrau yn 2020, pan fyddai prosiectau'n cael eu cyflwyno.

8. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau (CSAG) ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr, sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar hyrwyddo ffordd strategol o weithio a chydweithredu wrth roi caniatâd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr. Mae'r grŵp wedi ystyried yr argymhellion a ddeilliodd o adolygiad diweddar ORJIP, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ar *hyrwyddo arferion da wrth roi caniatâd ar gyfer technolegau ynni'r llanw ac ynni'r tonnau yng Nghymru*. Nodwyd bod canlyniadau'r adroddiad yn debyg i waith a ddatblygwyd yn y gorffennol gan Ynni Môr Cymru. Mae'r ffocws bellach ar ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn helpu i sicrhau cynnydd ystyrlon yn y maes hwn.

9. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru ati i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiadau Ardal, sydd i'w cyhoeddi ym mis Mawrth 2020.

10. Rhoddodd yr aelodau adborth ar hynt y gwaith hyd yma. Roeddent yn gadarnhaol am y Cynllun Morol terfynol ac yn ei gefnogi, ac yn teimlo eu bod wedi cael chwarae rhan lawn wrth iddo gael ei ddatblygu. Dywedodd yr aelodau fod rhanddeiliaid wedi llwyddo i gyfaddawdu'n dda ar ôl pum mlynedd o waith a bod llawer o bobl wedi gwneud cyfraniad llwyddiannus i'r grŵp hwn ac y gallant barhau i wneud cyfraniad ystyrlon. Nodwyd mai un o nodweddion cadarnhaol y broses oedd ei bod yn gwella'n barhaus ac yn organig ei natur.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru